ffyhonnell

Rhifyn 10: 2010 www.stwater.co.uk

eich bil dŵr yn cael ei dalu
drosoch chi am flwyddyn!

Cewch y budd gorau gan
Severn Trent Water
arbed amser
arbed arian
arbed dŵr
biliau isaf Prydain ar gyfartaledd

gwell diogel nag edifar

Mae twyllwyr weithiau'n ceisio dod i mewn i gartrefi pobl trwy gymryd arnynt eu bod yn gweithio i gwmnïau cyfleustodau fel dŵr, trydan neu nwy neu i'r cyngor lleol.

Maent yn drefnus iawn, yn argyhoeddiadol ac yn aml bydd ganddynt gardiau adnabod ffug. Byddant yn aml yn dweud eu bod yn gweithio i'ch cwmni dŵr neu'r bwrdd dŵr ac yn gofyn am ddod i mewn i wirio'r dŵr.

Peidiwch â gadael i neb ddod i mewn cyn gwirio pwy ydynt. Gellir copïo cardiau adnabod yn hawdd. Os hoffech wirio bod rhywun yn ddilys, gofynnwch am ei enw a ffoniwch y rhif **08456 041 655.** Peidiwch â ffonio unrhyw rif arall y bydd yn ei roi i chi.

Mae gennym gynllun cyfrinair I'ch gwarchod rhag pobl dwyllodrus sy'n galw heibio. Ffoniwch y rhif **08457 500 500** i gofrestru eich cyfrinair. Am ragor o wybodaeth darllenwch ein taflen 'Ydyn nhw'n ddilys?'

gwerth am arian

O Ebrill 2010 ymlaen, Severn Trent Water fydd â biliau domestig isaf Prydain ar gyfartaledd.*

Hyd yn oed gyda'r biliau isaf ym Mhrydain ar gyfartaledd, byddwn yn cyflawni'r gwelliannau yr ydych wedi dweud wrthym eu bod yn bwysig i chi. Dros y pum mlynedd nesaf byddwn yn gwario dros £1 miliwn bob dydd i:
• wneud rhwydwaith eich cyflenwad dŵr hyd yn oed yn fwy dibynadwy;
• lleihau'r dŵr sy'n gollwng o'n pibellau;
• lleihau gorlifo o garthffosydd;
• cadw ansawdd y dŵr yfed ymhlith y gorau ym Mhrydain;
• lleihau ein hôl-troed carbon a;
• gwella eich amgylchedd dŵr lleol.

'Yn ôl ffigurau gan ein rheolydd, Ofwat, 26 Tach 2009

* taliadau uniongyrchol o fudd-daliadau

* taliadau hawdd i'w rheoli

Bydd un alwad ffôn yn ddigon i roi tawelwch meddwl i chi

lleihau eich dyled

Os ydych yn cael anhawster i dalu eich bil, mynnwch air â ni.

Mae gennym lawer o gynlluniau sydd wedi'u paratoi yn arbennig i helpu cwsmeriaid sydd ar incwm isel. Maent yn sicrhau nad oes angen i chi boeni am dalu eich bil ac nid oes angen i chi gofio talu i ni hyd yn oed – gallwn dderbyn taliadau yn uniongyrchol o'ch budd-daliadau

Helpwch ni i'ch helpu chi - ffoniwch y rhif: 08456 043 772
neu ewch i www.stwater.co.uk/help

Os ydych mewn caledi ariannol difrifol, efallai y gall Cronfa Ymddiriedolaeth annibynnol Severn Trent eich helpu gyda grant tuag at eich taliadau dŵr/carthffosiaeth ac, mewn rhai achosion, gall helpu tuag at filiau a chostau eraill. Am wybodaeth bellach ffoniwch y rhif 0121 355 7766.

Efallai y gall WaterSure eich helpu i
osod uchafswm ar eich taliadau

* arbed arian i chi
* tawelwch meddwl

Os oes gennych fesurydd ac os ydych yn defnyddio llawer o ddŵr, gallwn osod uchafswm ar eich taliadau. I fod yn gymwys, mae angen i chi fod ar rai budd-daliadau penodol a bod â thri neu ragor o blant dan 19 yn y tŷ, NEU mae'n rhaid i aelod o'r teulu fod â chyflwr meddygol sy'n ddibynnol ar ddŵr. Ffoniwch y rhif 08457 500 500 a gofyn am WaterSure.

Mae gennym gynllun hefyd i helpu'r rhai sy'n byw ar eu pennau eu hunain mewn eiddo lle na allwn osod mesurydd – ffoniwch y rhif 08457 500 500 i wybod mwy.

*arbed arian ar eich biliau dŵr ac ynni

* lleihau eich ôl-troed carbon

* helpu i arbed adnodd gwerthfawr

arbed dŵr

Darganfyddwch faint o ddŵr rydych chi'n ei ddefnyddio a chael cyngor ar sut y gallwch leihau faint rydych yn ei wastraffu trwy ddefnyddio'r cyfrifydd defnydd dŵr yn www.stwater.co.uk/savewater.

Arbed gydag arbed-gwacáu



Defnyddir traean y dŵr a ddefnyddiwn yn y cartref i wacáu'r toiled.
I wastraffu llai o ddŵr, rhowch fag arbed-gwacáu yn seston eich toiled.

Casgen ddŵr – y dewis call
Mae'n well gan blanhigion ddŵr glaw na dŵr tap.
Manteisiwch ar yr holl law – drwy ei gasglu mewn casgen ddŵr. Gall y dŵr glaw a gasglwch ddarparu'r holl ddŵr sydd ei angen ar eich gardd.

Eich ShowerSave E.ON am ddim
Mae gwresogi dŵr yn y cartref yn cynhyrchu tua 5% o allyriadau CO_2 Prydain, a 25% o fil egni eich cartref.

Rydym yn cynnig ShowerSave E.ON am ddim i'n cwsmeriaid i'ch helpu i ddefnyddio dŵr ac ynni'n effeithiol.

Manteision:
• biliau dŵr ac egni llai
• llai o allyriadau CO2
• gallwch ei osod mewn dim o dro.

Un ar gyfer pob cartref. Mae'r cynnig
yn amodol ar iddyn nhw fod ar gael.

I archebu eich cynhyrchion arbed dŵr neu i wybod mwy am arbed dŵr ewch i www.stwater.co.uk/savewater neu ffoniwch y rhif 08456 034 413.

osgoi BOS

Cewch drap braster AM DDIM yn www.stwater.co.uk/fattraps
neu ffoniwch y rhif 08456 034 413

Tri rheswm da dros beidio â thywallt braster, olew a saim (BOS) i lawr y sinc i'r carthffosydd:

1. Mae BOS yn caledu wrth daro waliau oer y garthffos ac yn achosi rhwystr
2. Yna mae rhwystrau yn peri i wastraff gronni a charthion orlifo i'ch cartref ac i ffyrdd, parciau ac afonydd lleol
3. Mae BOS yn denu llygod mawr!



Cadwch eich amgylchedd lleol yn lân a diogel: biniwch eich braster, eich olew a'ch saim!

diwmod allan braf

Mae ein cronfeydd dŵr yn cynnig diwrnod allan braf i'r holl deulu – o'r rhai ifanc iawn i'r rhai ifanc eu hysbryd.

I fynd am dro yn hamddenol, chwysu ar gefn eich beic neu ymlacio a gwylio'r adar, mae ein safleoedd ymwelwyr yn lleoliadau delfrydol lle cewch fwynhau'r awyr iach.

Rhowch gynnig ar amrywiaeth eang o chwaraeon dŵr yn Tittesworth Water, ewch i'r arddangosfa ryngweithiol newydd sbon yn Thornton Reservoir neu ewch i Carsington Water lle mae rhywbeth at ddant pawb.
* cael ymarfer corff
* hwyl i bawb

Trwy gydol y flwyddyn rydym yn cynnig dewis gwych o ddigwyddiadau, llawer ohonyn nhw'n ddi-dâl. Ewch i www.moretoexperience.co.uk i wybod beth sy'n digwydd yn eich ardal chi!

ennill dŵr am ddim

Cofrestrwch ar gyfer bilio di-bapur a byddwch yn awtomatig yn cael cyfle i ennill gwobr wych - gall eich bil dŵr gael ei dalu am 12 mis.

Cofrestrwch heddiw i gael cyfle i ennill gwobr AM DDIM

Gweler tudalen 19 am y telerau a'r amodau llawn.

Cael biliau di-bapur heddiw yn www.stwater.co.uk/paperless
i gael cyfle i ennill.

*arbed amser *cymryd rheolaeth
*talu ar-lein

Arbed amser ar-lein

Mae cymaint ar gael ar flaen eich bysedd ar ein gwefan – gallwch archebu mesurydd, cael cymorth gyda'ch bil, dysgu am eich gwasanaethau dŵr a gwastraff a llawer mwy yn gyffyrddus yn eich cartref.

Ac yn awr rydym wedi'i gwneud yn hawdd a chyfleus rheoli eich cyfrif gyda ni. Gallwch ddweud wrthym os ydych wedi mudo, talu eich bil, rhoi'r darlleniad mesurydd diweddaraf a sefydlu Debyd Uniongyrchol. Pan fyddwch yn mynd yn ddi-bapur byddwn yn anfon e-bost atoch pan fydd eich bil nesaf yn barod i'chi ei weld.

beth mae angen I chi ei wybod

Ble gallaf gael eglurhad ar fy mil?

Ewch i www.stwater.co.uk/yourbill lle mae eglurhad llawn ar eich bil.

Sut y gallad gael rhagor o wybodaeth am fy nhaliadau?

Mae'r holl wybodaeth yn ein taflen taliadau sydd i'w gweld ar ein gwefan yn www.stwater.co.uk/ourcharges.

Sut y gallaf ofyn am daflenni?
Y ffordd hawsaf a chyflymaf yw trwy fynd i'n gwefan www.stwater.co.uk/library. Neu gallwch ofyn trwy anfon e-bost at customer.relations@severntrent.co.uk neu ffoniwch y rhif 08457 500 500 a byddwn yn anfon y daflen atoch trwy'r post. Gallwch ofyn am yr holl daflenni a nodir yn y cylchgrawn hwn a llawer mwy hefyd.

A fyddwch yn cadw fy manylion yn ddiogel?

Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth sydd gennym amdanoch i reoli eich cyfrif gyda ni a, lle caniateir hyn, i gynnig i chi nwyddau a gwasanaethau eraill sy'n gysylltiedig â dŵr. Os rhoddwch i ni ddata personol sensitif, rydych yn cydsynio i ni eu prosesu at y dibenion uchod. Gallem drosglwyddo eich data personol i unrhyw wlad at unrhyw un o'r dibenion hyn. Os bydd hyn yn digwydd, byddwn yn sicrhau bod unrhyw un sy'n derbyn eich data gennym yn cytuno i'w trin gyda'r un lefel o ddiogelwch â phetaem ni'n eu trin.

Ewch i www.stwater.co.uk/yourdata am fwy o fanylion am bolisi preifatrwydd Severn Trent Water.

Pa wasanaethau rydych chi'n eu cynnig i gwsmeriaid sydd ag anghenion unigol?

Os oes gennych gyflwr meddygol/symudedd ac mae arnoch angen cyflenwad cyson o ddŵr gallwn roi blaenoriaeth i chi os bydd unrhyw broblem yn codi gyda'ch cyflenwad dŵr. Gallwn ddarparu gohebiaeth ar ffurfiau amgen gan gynnwys print bras, braille a sain. Gallwch enwebu cyfaill neu berthynas i weithredu ar eich rhan trwy ein cynllun enwebai. Os oes gennych anabledd hoffem wybod oherwydd efallai fod gennym wasanaeth a all eich helpu. Gallwch ofyn am ein taflen 'Mynediad at ein gwasanaethau'.

Pwy sy'n gyfrifol am y pibellau dŵr?

Ni yw perchennog y bibell ddŵr ac sy'n ei chynnal a'i chadw hyd at y tap cau allanol, sydd fel rheol yn y stryd ar ffin eich eiddo. Chi, meddiannydd yr
eiddo, sy'n gyfrifol am gost cynnal a chadw'r bibell ddŵr ar eich ochr chi i'r tap cau allanol.

Cyfrifoldeb Severn Trent Water
Llwybr troed
Ffin yr eiddo
Ffordd
Pibell wasanaeth dŵr
Tap cau allanol

Pan fydd angen cynnal a chadw'r bibell ddŵr yn y stryd, byddwn ni'n gwneud y gwaith trwsio. Pan fydd angen cynnal a chadw'r bibell ddŵr o fewn ffiniau eich eiddo, mae'n rhaid i chi wneud y gwaith trwsio.

Ai fi sy'n gyfrifol am wirio am ollyngiadau?

Ie. Rydym yn argymell y dylech wirio'n rheolaidd am unrhyw arwydd bod dŵr yn gollwng. Am ragor o wybodaeth am sut i wneud hyn ewch i www.stwater.co.uk neu gofynnwch am ein taflen 'Cod Ymarfer – Mesur eich cyflenwad dŵr'.

Mae fy nŵr wyneb yn mynd i suddfan dŵr felly oes rhaid i mi dalu am Ddraenio Dŵr Wyneb?

Eich cyfrifoldeb chi yw ein hysbysu am eich trefniadau draenio. Os gallwch brofi nad oes unrhyw ran o'ch dŵr wyneb yn draenio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol i'r garthffos gyhoeddus efallai y byddwch yn gymwys i wneud cais am leihau eich taliadau dŵr. Mae ffurflen gais ar gael yn www.stwater.co.uk/swd.

Sut y gallaf gael hyd I blymwr?

Mae manylion am blymwyr lleol i'w cael trwy ddefnyddio'r llyfr ffôn. Rydym yn argymell defnyddio Plymwr Cymeradwy (gweler y Cynllun Dyfrnod (*WaterMark Scheme*) o dan 'Business' ar ein gwefan am ragor o wybodaeth).

A fuasai mesurydd dŵr yn fanteisiol i mi?

Os ydych yn defnyddio cymharol ychydig o ddŵr gallai mesurydd fod yn fanteisiol oherwydd ni fyddwch ond yn talu am y dŵr a ddefnyddiwch, y dŵr wyneb (fel dŵr glaw) sy'n draenio oddi wrth eich eiddo a thâl sefydlog bach. Mae ein taflen 'Gosod mesurydd am ddim' yn eich helpu i benderfynu a fuasai mesurydd yn fwy manteisiol i chi. Gallwch fynd i **www.stwater.co.uk/watermeter** hefyd a gwneud cais ar-lein.

A allaf newid fy meddwl ar ôl i mi gael mesurydd?

Os ydych wedi gwneud cais am fesurydd, mae gennych hawl i fynd yn ôl i fil seiliedig ar werth ardrethol cyn pen 12 mis ar ôl cael gosod y mesurydd neu cyn pen 30 diwrnod ar ôl derbyn eich ail fil ers dewis mesurydd. Cysylltwch â ni i wneud yn siŵr bod eich bil mesuredig wedi'i seilio ar eich gwir ddefnydd ac nid amcangyfrif er mwyn i chi allu dewis yr opsiwn rhataf i chi.

Sut y gallad gael rhagor o wybodaeth am ansawdd y dŵr yn fy ardal?

Mae gwybodaeth am ansawdd y dŵr yn ardal eich cod post a thaflenni sy'n rhoi'r ffeithiau am ansawdd y dŵr ar gael ar-lein, ewch i www.stwater.co.uk/waterquality. Neu gallwch gael adroddiadau ar ansawdd y dŵr a thaflenni sy'n rhoi'r ffeithiau trwy ein ffonio ar y rhif 0800 783 4444 neu gallwch ysgrifennu atom yn:
Severn Trent Water, Sherbourne House, St. Martins Road, Finham,
Coventry CV3 6SD

Â phwy y gallaf siarad am eich gwasanaethau?

Os nad ydych yn fodlon ar ein gwasanaeth am unrhyw reswm a'ch bod yn dewis gwneud cwyn, byddwn yn gwneud cymaint ag y gallwn i ddatrys y mater.

Os ydych yn dal yn anfodlon, gallwch ysgrifennu at y Tîm Cysylltiadau Cwsmer yn:
Severn Trent Water,
Sherbourne House
St. Martins Road, Finham,
Coventry CV3 6SD

Gallwch gysylltu â ni trwy e-bost hefyd trwy ein gwefan yn www.stwater.co.uk/contactus. Mae ein taflen 'Beth i'w wneud os ydych yn anfodlon ar ein gwasanaeth' yn cynnwys manylion llawn am eich trefniadau cwyno.

Os teimlwch eich bod yn dal yn anfodlon ar ein hymateb, gallwch gysylltu â'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr – Canolbarth ar y rhif 08457 023 953 neu 0121 345 1017. Neu ewch i www.ccwater.org.uk , anfonwch e-bost at central@ccwater.org.uk neu ysgrifennwch at: Cyngor Defnyddwyr Dŵr – Canolbarth, 1st Floor, Victoria Square House, Victoria Square, Birmingham B2 4AJ.

ein safonau gwasanaeth

Pa warantau ydych chi'n eu cynnig i gwrdd â'r safonau cwsmer?

Rydym yn gweithio'n galed i sicrhau eich bod yn cael gwasanaeth ardderchog ac rydym yn cefnogi hyn trwy warantau gwasanaeth a gadarnheir gan y Swyddfa Gwasanaethau Dŵr (Ofwat).
Ar gyfer y safonau isod, os ydym yn ymwybodol ein bod wedi methu â chwrdd â gwarant byddwn yn talu £20 i chi dan ein cynllun Safonau Gwasanaeth Gwarantedig (SGG).

- Cynnig apwyntiadau o fewn amserau penodol a'u cadw.
- Ymateb i gwynion ysgrifenedig cyn pen 10 diwrnod gwaith.
- Ymateb i ymholiadau ysgrifenedig ynghylch biliau cyn pen 10 diwrnod gwaith neu bum diwrnod pan ofynnwch am newid i'ch dull o dalu na ellir ei roi.

Os bydd methiant dan ein cynllun SGG yn y tri maes canlynol byddwn yn talu £20 I

gwsmeriaid domestig a £50 I gwsmeriaid masnachol.

- Eich rhybuddio chi 48 awr cyn unrhyw waith cynlluniedig a allai beri i chi golli eich cyflenwad dŵr am fwy na 4 awr.
- Adfer eich cyflenwad dŵr o fewn yr amser a nodwyd yn y rhybudd.
- Adfer cyflenwadau cyn pen 12 awr ar ôl argyfwng, fel pibell wedi torri (48 awr ar gyfer prif bibellau strategol).

Yn achos pwyntiau bwled dau a thri uchod byddwn hefyd yn talu £10 (domestig) neu £25 (masnachol) am bob cyfnod o 24 awr rydym yn mynd dros gyfnod y rhybudd neu dros yr amser trwsio 12/48 awr.

Os yw carthffosiaeth yn mynd i mewn i'ch eiddo ac yn creu difrod sylweddol, byddwn yn ad-dalu 100% o'ch tâl blynyddol am garthffosiaeth am ddigwyddiad yn y tŷ neu 50% am ddigwyddiad tu allan (yn amodol ar isafswm ac uchafswm).

Os yw gwasgedd y dŵr yn rhy isel byddwn yn talu £25 o iawndal unwaith mewn unrhyw flwyddyn ariannol os yw gwasgedd y dŵr yn disgyn dan ben 7m ddwywaith mewn cyfnod o 28 diwrnod am fwy nag un awr bob tro.

Byddwn yn talu swm ychwanegol i chi os na fyddwn yn gwneud y taliadau SGG cychwynnol cyn pen cyfnod penodol (ac eithrio gwasgedd isel).

Rydym wedi mynd tu hwnt i'r safonau statudol ac rydym hefyd yn cynnig taliad o £25 os ydym yn gyfrifol am rywbeth sy'n peri i ni gyflwyno rhybudd 'berwi dŵr' neu 'peidiwch ag yfed na defnyddio'.
Rydym hefyd yn gorfod, dan ein trwydded weithredu, talu £10 am bob dydd y mae'n rhaid i ni dorri eich cyflenwad oherwydd sychder.

Ewch i www.stwater.co.uk/gss lle gallwch lwytho i lawr daflen sy'n rhoi manylion llawn am eich hawliau a'r eithriadau.
Amodau a Thelerau'r Gystadleuaeth Enillydd Hap:
Eich bil dŵr yn cael ei dalu drosoch chi am flwyddyn.
Ewch i www.stwater.co.uk/paperless

(1) Hapddewisir pedwar enillydd ar gyfer y gystadleuaeth 'Eich bil dŵr yn cael ei dalu drosoch chi am flwyddyn' ("y Gystadleuaeth"). Hapddewisir y ddau enillydd cyntaf ar ôl 11.59pm ar 30 Mehefin 2010. Hapddewisir y ddau enillydd olaf ar ôl 11.59pm ar 31 Rhagfyr 2010.
(2) I gymryd rhan yn y Gystadleuaeth ar-lein mae'n rhaid i chi gofrestru i ddefnyddio'r gwasanaeth rheoli ar-lein ("y Gwasanaeth") a chofrestru ar gyfer bilio di-bapur.
(3) Bydd cwsmeriaid sy'n cofrestru ar gyfer y Gwasanaeth ac yn cofrestru ar gyfer bilio di-bapur rhwng 14 Chwefror 2010 a'r dyddiad cau ar gyfer y gystadleuaeth gyntaf (30 Mehefin 2010) yn cymryd rhan yn y gystadleuaeth gyntaf. Bydd cwsmeriaid sy'n cofrestru ar gyfer y Gwasanaeth ac yn cofrestru ar gyfer bilio di-bapur rhwng 1 Gorffennaf 2010 a 31 Rhagfyr 2010 yn cymryd rhan yn yr ail gystadleuaeth.
(4) Bydd pawb sydd wedi cofrestru ar gyfer y Gwasanaeth a chofrestru ar gyfer bilio di-bapur cyn 14 Chwefror 2010 yn cymryd rhan yn awtomatig yn y Gystadleuaeth ar 30 Mehefin 2010.
(5) Nid oes wobr ariannol neu wobr arall ar gael. Byddwch yn talu eich bil yn y lle cyntaf a rhoddir credyd am y swm ar eich cyfrif ar ddiwedd y flwyddyn galendr.

(6) Nid yw staff Severn Trent Water Cyf nac unrhyw gwmni cysylltiedig nac unrhyw un sy'n gysylltiedig â'r Gystadleuaeth hon na'u teuluoedd yn gymwys i gymryd rhan.
(7) Dim ond un cais a ganiateir gan bob cartref.
(8) Mae'r wobr yn gymwys i'r prif gartref yn unig ac fe'i cyfyngir i uchafswm bil o hyd at £1,000.00 y cartref.
(9) Mae'r Gystadleuaeth ar gyfer cwsmeriaid Severn Trent Water Cyf yn unig.
(10) Mae'r Gystadleuaeth yn agored i holl gwsmeriaid Severn Trent Water sy'n 18 mlwydd oed neu'n hŷn.
(11) Nid oes angen prynu dim byd. Gallwch gymryd rhan hefyd trwy anfon eich enw a'ch cyfeiriad ar ddarn plaen o bapur at: Self Serve Team, Customer Relations, Severn Trent Water Ltd, PO Box 51, Raynesway, Derby DE21 7JA; nid yw profi'r postio yn profi'r derbyn ac nid ydym yn derbyn cyfrifoldeb am unrhyw gais sy'n cael ei golli, ei gadw'n ôl neu ei ddifrodi yn y post.
(12) Rheolir pob cais gan y telerau a'r amodau hyn.
(13) Mae penderfyniad Rheolwr Gwasanaethau Cwsmer Severn Trent Water Cyf yn derfynol ym mhob achos sy'n ymwneud â'r Gystadleuaeth.
(14) Bydd enwau'r enillwyr ar gael os gofynnwch trwy ysgrifennu at: Self Serve Team, Customer Relations, Severn Trent Water Ltd, PO Box 51, Raynesway, Derby DE21 7JA. Hyrwyddwr y Gystadleuaeth hon yw Severn Trent Water Cyf.

Severn Trent Water

Os bydd angen i chi gysylltu â ni, gallwch wneud hynny trwy:

Gwefan: www.stwater.co.uk

E-bost: customer.relations@severntrent.co.uk
Ffôn: Os oes angen i chi gysylltu â ni ynghylch eich bil ffoniwch y rhif: 08457 500 500 (8am i 8pm o ddydd Llun i ddydd Gwener, 8am i 1pm ar ddydd Sadwrn) Cofiwch, ar adegau prysur, gall ein gwefan roi gwasanaeth cyflymach i chi.

Adegau prysur yn y ganolfan gyswllt bilio

brig
cymedrol
tawelach

Os ydych yn defnyddio ffôn testun gallwch gysylltu â ni ar y rhif : **0800 328 1155.** Dim ond galwadau o ffonau testun eraill y gellir eu derbyn ar y rhif hwn.

Mewn argyfwng
I gysylltu â ni 24 awr y dydd ynghylch materion dŵr a charthffosiaeth fel gollyngiadau, prif bibellau wedi'u torri a charthffosydd wedi'u blocio, ffoniwch y rhif: **0800 783 4444** neu ewch i: www.stwater.co.uk/reportaleak
WM 2009/10.144.TPF